Cryfhau partneriaeth gymdeithasol

Strengthening social partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gorsaf Fysiau Merthyr Tudful

Mae Gorsaf Fysiau Merthyr Tudful, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn darparu cyfnewidfa fysiau o'r radd flaenaf i'r dref a gosod y meincnod ar gyfer seilwaith trafnidiaeth werdd yng Nghymru.

**Cafodd y prosiect, dan arweiniad Morgan Sindall, ei gyflawni ar amser, o fewn y gyllideb, sgoriodd 10/10 er boddhad cwsmeriaid, ac fe'i cynlluniwyd gyda chynaliadwyedd fel y prif ffocws.**

Wedi'i gaffael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr drwy Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru, nid oes gan y prosiect £12m unrhyw gyflenwadau nwy na thanwydd ffosil, gyda'i systemau gwresogi a dŵr poeth yn cael eu darparu trwy ffynonellau adnewyddadwy gwyrdd, yn ogystal â system cynaeafu dŵr glaw sy'n cael ei defnyddio ar gyfer cyfleusterau toiledau. Mae uchafbwyntiau gymhwyso egwyddorion Economi Gylchol yn cynnwys:

- Defnyddio deunyddiau fel cerrig naturiol wedi'u hailgylchu a soffitau pren.
- Adeiladu haenog sy'n caniatáu ar gyfer cynnal a chadw a dadadeiladu haws ar ddiwedd ei oes.
- Dargyfeirio gwastraff o 100%.
- Lleihau carbon adeiladu o 50 tunnell, drwy ddileu'r defnydd o eneraduron a newid i gyflenwyr ynni gwyrdd, defnyddio cloddwyr hybrid, archwiliadau ynni llawn a rhaeadru'r gofynion allweddol hyn drwy'r gadwyn gyflenwi.

Sicrhaodd y fframwaith caffael cymdeithasol gyfrifol fod 94% o'r gwariant yn parhau'n lleol, cyflogwyd 18 o bobl leol oedd yn newydd i'r diwydiant adeiladu ar y prosiect, a chyflawnwyd 807 wythnos o gyflogaeth newydd, gan ragori 77% ar darged y prosiect. Yn ogystal, cyflogwyd chwe phrentis ar y cynllun, gan greu gyrfaoedd newydd yn y diwydiant. Llwyddodd isgontractwyr i ddenu pobl newydd i'r diwydiant drwy ddarparu cefnogaeth ac anogaeth gan y contractwr. Mae'r cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth hynny wedi galluogi newydd-ddyfodiaid i ennill cymwysterau a sicrhau cyflogaeth hirdymor ar ôl cwblhau'r prosiect.

Datblygwyd Siarter Prosiect trwy berthynas gref rhwng cleientiaid a chontractwyr, a helpodd i ymgorffori gofynion y cyngor trwy'r gadwyn gyflenwi: sef yr ymgyrch i gyflogi pobl leol, cynyddu gwariant gyda busnesau lleol, ac ymgysylltu ag ysgolion a cholegau lleol. Cafodd cyfrif banc prosiect ei weithredu hefyd, gan sicrhau sicrwydd a thaliadau cadwyn gyflenwi cydamserol – galluogodd hyn rai aelodau o'r gadwyn gyflenwi i wneud buddsoddiadau a fyddai'n gwella eu rhagolygon o ennill gwaith yn y dyfodol.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y prosiect yma: Morgan Sindall yn darparu'r orsaf fysiau drydanol gyntaf yng Nghymru | Morgan Sindall Construction.



OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymry, WG50514
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Astudiaeth achos

Awst 2024